y dinesydd

Hydref 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 275

# O GAERDYDD I LESOTHO

**Yn ystod mis Medi eleni bu criw o ddeg o wirfoddolwyr o Gymru yn rhan o daith feicio noddedig o amgylch Lesotho, yn enw 'Dolen Cymru-Lesotho'. Diben y daith oedd codi £10,000 tuag at ysbytai ac ysgolion anghenus yn y wlad honno.**

**Un o'r criw oedd yn gysylltiedig â'r daith oedd Siân Parry Jones a aeth allan fel ffotograffydd, gyda'r bwriad o gynhyrchu fideo i gofnodi'r daith ac i godi ymwybyddiaeth am y wlad. Yn enedigol o Ddinbych yn Nyffryn Clwyd, mae Siân bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers deng mlynedd, ac yn gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.**

Dyma ychydig o'r hanes -
Cafwyd croeso cynnes a lliwgar iawn wrth i'r criw gyrraedd y maes awyr yn Johannesburg - baneri Cymru yn chwyrlio a chriw o bobl ifanc Lesotho yn ein cyfarch gan weiddi 'Croeso'. Teithio mewn bws i Lesotho i ddechrau ar y daith feicio lle'r oedd y criw o Gymru yn bwriadu cydfeicio gydag oddeutu ugain Basotho ifanc oedd yn rhan o Glwb Beicio Lesotho. Taith dros 900 cilomedr dros gyfnod o bythefnos.



*Siân, yng nghwmni gwragedd un o'r pentrefi, wrth y tap dŵr*

Tipyn o dasg! Nid gwyliau o gwbl!! Yn wir, dwi'n credu fod rhai o'r beicwyr lleol yn disgwyl gweld Tîm Cenedlaethol Cymru yn cyrraedd yn eiddgar i ddechrau y Ras!!

Dechreuodd y daith yng Ngogledd Lesotho - mewn ysgol uwchradd yn nhref Butha-Buthe, cyn teithio i Oxbow - Mapholaneng - dros fynyddoedd 3250 medr o uchder! Y golygfeydd yn odidog. Sylweddolaf nawr pam y cyfeirir at y wlad fel y 'Deyrnas Fynyddig.' Roedd eraill yn cyfeirio at y daith fel 'Taith Tô'r Affrig' ac yn wir, ar adegau roeddwn yn teimlo ein bod ar ben y byd - yn llythrennol felly! Ymlaen i Molumong, St Theresa, mynydd Matabeng, Sehlabathebe, Quacha's Nek, Sekake, Mphaki, Mohale's Hoek, Morija, y brifddinas Maseru ac yna nôl i orffen y daith yn Butha-Buthe.

Cawsom dywydd amrywiol iawn - gwres cynnes, glaw, mellt a tharanau, cenllysg ac eira trwm. Digon o amrywiaeth felly!

Gwelsom gymaint ar y wlad - mynyddoedd trawiadol y Gogledd, tirwedd dramatig amrywiol, pentrefi bach anghysbell a golygfeydd anhygoel. Dyffrynnoedd yn frith o Rondavelles - tai crwn traddodiadol wedi eu hadeiladu o gerrig a mwd â thoeau gwellt, coed eirin gwlanog yn blaguro'n frith o liw pinc deniadol, bechgyn ifanc yn bugeilio'u praidd ar y mynyddoedd serth yn eu blancedi trwm - y flanced Basotho oedd i'w gweld ym mhobman, plant yn ymddangos o bob man yn chwifio eu breichiau ac yn gweiddi am fferins, ffyrdd a thraciau yn ymlwybro dros dirwedd anhygoel o hardd - ac eto y tlodi mor boenus o amlwg. Delweddau fydd yn aros yn y cof am byth.

Tra ar ein taith, cawsom gyfle i ymweld â nifer o ysbytai ac ysgolion. Mae'r angen yn amlwg - diffyg adnoddau sylfaenol, adeiladau gwael, llawer o'r cleifion yn yr ysbytai yn dioddef o T.B. neu H.I.V. sydd yn rhemp yn y wlad. Mae angen codi ymwybyddiaeth am y sefyllfa ac angen addysgu'r plant a'r oedolion os oes gobaith i'r sefyllfa wella.

parhad ar dudalen 7

## *Y Dinesydd* yn Taro Nôl!

Tybed a welsoch chi sylwadau Dr Simon Brooks yn Barn y mis hwn? Ynddo mae'n ymosod ar Gymry Cymraeg Caerdydd am beidio â chymdeithasu'n ddigonol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac am beidio â chreu is-ddiwylliant Cymraeg tanddaearol. Mae ganddo hefyd sylwadau negyddol am ansawdd y papur hwn. Fe achosodd ei sylwadau dipyn o ddadlau ar Radio Cymru, fel y gellir dychmygu. Clywyd sawl brodor o'r ddinas yn pwysleisio y dylid dathlu'r ffaith fod modd byw bywyd Cymraeg yng Nghaerdydd heb orfod ffurfio gheto, a bod llawer am fywyd Caerdydd nad yw Simon yn gwybod amdano. A'i sylwadau am y papur hwn? Wel, mae croeso i chi ddod i'r cyfarfod blynyddol i gyfrannu eich sylwadau, ac rydym yn croesawu erthyglau diddorol unrhyw adeg! Dylen ni ddiolch efallai i'r Dr Brooks am wneud Cymreictod y Ddinas yn destun trafod, ond nid yw hynny'n golygu ein bod ni'n cytuno â'i sylwadau.

**Cyfarfod Blynyddol *Y Dinesydd***

**Dewch i gwyno!**
**Dewch i gefnogi!**

**Nos Iau, 21 Tachwedd 2002,**
**yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina**
**am 7.30 p.m.**

**Cyfarfod cyhoeddus sy'n agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau agos.**

# Y Dinesydd

**Hydref, Rhif 275.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Nona Gruffudd-Evans ac Efa Gruffudd

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Hywel Jones

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd 2002 erbyn 21 Hydref at:**
Hywel Jones, 4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF23 5QF (ffôn: 029-2021-1855;
e-bost: hywel.jones4@ntlworld.com)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.
Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ..............................................................

.............................................. Côd Post: ....................

Rhif Ffôn: ..............................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 35** **Hydref 2002**



**Ar Draws**

1. 'Diolchaf fwy __ ___ ___
I mi gael llawenhau' (DC) (2,6,5)
7. A oes te i'r ail yn y byd go iawn? (7)
8. Cael dim mewn gŵyl wallgof er yn ddisglair (5)
9. Mae'r ynys hon yn rhan o'r strwythur (3)
10. A dorrir f'esgyrn i yn y llaw hon? (8)
12. 'Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair
A gwerthu ein henaid __ ___ a chonffeti ffair' (Gwenallt) (2,4)
13. Pan ddaw'n dro Dai try yn ddifater (6)
15. Danfon lloi Arfon rywsut dros y dŵr (8)
17. Rwy'n gweld, ychydig, o'r rhwydwaith (3)
19. '___, Iesu, boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghân' (WW) (5)
20. Ai ryw rith o rew yw hwn? (7)
21. 'A llym Gyfiawnder oddi fry,
Yn saethu ___ ___ ____ __' (4,1'1,5,2)

**I Lawr**

1. Mae Dai yn codi ar ôl drysu y mawr mewn ffordd arall (8)
2. Roedd anifail gwyllt yn yr iard (5)
3. 'Uchelgaer uwch y ___ - gyr y byd
Ei gerbydau drosti' (DW) (6)
4. Troi trigain e.e. i gael blodyn (9)
5. Sut mae delio â'r pentref yma? (5)
6. Teg yn Tŷ Lewis ar yn ail (4)
10. A yw syrffio Tom yn achos brolio? (9)
11. Braidd y bu Ithel yn ymhel â'r criw disgwylgar hyn (8)
14. Mae'r deryn hwn yn joio belo Nic ar yn ail (6)
16. Rhes yn codi'r llen yn dilyn dilyw (5)
17. Yr olaf o'r cryf ymhlith y glew gwirion yn cael min (5)
18. Ennaint i ddechrau bywiogi ambell lipryn marwaidd (4)

**Atebion Croesair 34**

**Ar draws:** 1. Tlawd; 4. Ni syfl; 7. Adloniant; 8. Oes; 10. Digolledu; 13. Dewr; 15. Yw'r ots gennyf i; 16. Tabl; 17. Difwriad; 20. Duo; 21. Hen derfyn; 24. Lindys; 25. Dynes. **I lawr:** 1. Traed; 2. Aml; 3. Dyn y llety; 4. Noa; 5. Swta; 6. Fioled y ci; 9. Swrni; 11. Gwrthbrofi; 12. Dogni; 14. Yn gwneud; 15. Ystod; 18. Dinas; 19. Ehud; 22. Nos; 23. Fen.

Derbyniwyd 13 ymgais a 10 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr at Delwyn Tibbott, Pentyrch. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien; H O Hughes, Pwllheli; Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan; Eira Jones, Y Mynydd Bychan; E Haydn Jones, Rhiwbina; Rhiain Phillips, Radyr; Dilys Prichard-Jones, Pwllheli; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd a Lynne Davies, Llanisien.

**Cystadleuaeth Hydref 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Hydref 2002.

# Calendr y Dinesydd

**Mawrth, 15 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson o dan ofal Gwyndaf Breeze, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 16 Hydref**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan John Albert Evans yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.
**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Jac Glan-y-gors yn Llundain.' Darlith gan Dr E. G. Millward, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 18 Hydref**
Cwmni Theatr Gwynedd yn cyflwyno 'Blodeuwedd' (Saunders Lewis) yn Theatr a Neuaddau Coffa y Barri am 7.30 p.m. Tocynnau: 01446-738622 neu 029-2030-4400.
**Sadwrn 19 Hydref**
Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Cylch Trafod Rhyddiaith yr Oesoedd Canol. Cynhadledd undydd ar Gereint yn Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: 029-2087-4843; cymraeg@caerdydd.ac.uk.
**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Teithio trwy Gymru yng nghwmni Arwyn Michael, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 21 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Madam Llywydd.' Sgwrs gan Catrin Stevens yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.
**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Triciau Digidol ym Maes Teledu.' Darlith gan Wyn Jones (BBC). Cwrdd ym mynedfa y BBC yn Ffordd Llantrisant, Llandaf am 7.30 p.m.
**Gwener, 25 Hydref**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Fel Hen Win . . .' gan Valmai Jones, sioe deyrnged i fywyd a gwaith Wil Sam, yn Neuadd Llanofer, Caerdydd am 7.30p.m. Tocynnau: 029-2063-1144. Manylion pellach: 01286-676335.
**Gwener, 25 Hydref**
Cwrs gwau tapestri yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.
**Mawrth, 29 Hydref**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Noson y Bröydd gydag Elinor Davies, Sioned Davies a Glyn Jones, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Gwener, 1 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Rhiannon Gregory ar 'Ieuan Gwynedd: un o arwyr y 19eg ganrif, a fu farw yng Nghaerdydd 150 o flynyddoedd yn ôl ', yn festri Eglwys Ebeneser, Heol Siarl, am 7.15 p.m.
**Sul, 3 Tachwedd**
Cymanfa Ganu ar y thema, 'Tangnefeddwyr, Plant i Dduw', yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond am 2.30 p.m. Arweinydd: Helena Braithwaite; Cyfeilydd: Martin Jones; Côr Ysgol y Wern. Mynediad am ddim. Bydd casgliad tuag at Apêl Bangladesh.
**Sul, 3 Tachwedd**
Dathlu Seintiau Cymru: Gwasanaeth Dwyieithog i lansio gwaith Pwyllgor Dwyieithrwydd Esgobaeth Llandaf yn Eglwys y Plwyf, Llanilltud Fawr am 6p.m.
**Llun, 4 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Noson y Boneddigesau yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Gwr Gwadd: Dai Jones, un o gymeriadau mwyaf lliwgar ein teledu. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Mercher, 6 Tachwedd**
Merched y Wawr (Bro Radur): Bowlio Deg yn Nantgarw. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.
**Sadwrn, 9 Tachwedd**
'Brethyn Cartref.' Cyngerdd gan Gôr Philharmonig Caerdydd yn Neuadd Gerdd y Brifysgol, Heol Corbett, Caerdydd, am 7.30 p.m.
**Mawrth, 12 Tachwedd**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Gaudy Welsh.' Sgwrs gan Heddwyn Richards, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Iau, 14 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Sgwrs am y Sioni Winwns gan Gwyn Griffiths, Pontypridd. Manylion pellach: 029-2065-7730 neu 029-2062-4878.
**Iau, 14 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Y Beirdd yn Cofio.' Sgwrs gan y Parch. Meurig Llwyd Williams, yng nghapel Bethel am 7.30 p.m.
**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Merched ym Maledi'r 18fed Ganrif.' Darlith gan Dr Siwan Rosser yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.
**Gwener, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mair Robins), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Arch Noa.
**Sadwrn, 16 Tachwedd**
Ysgol Undydd Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd: 'Agweddau ar Addysg, Crefydd a Diwylliant yng Nghymru.' Darlithoedd gan E. D. Evans, Yr Athro Prys Morgan, Yr Athro Gareth Williams a Dr Siân Rhiannon Williams, yn theatr Eglwys y Crwys, Heol Richmond, rhwng 9.30 a 4.30. Manylion pellach gan y trefnydd, yr Athro John Gwynfor Jones (029-2087-6874).
**Llun, 18 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yng nghwmni Garwyn Davies, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.
**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Cofnodi yn y Cynulliad.' Sgwrs gan Dr Kathryn Jenkins, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.
**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Goleuo'r Ffordd drwy Rwydwaith Draffig y Gell.' Darlith gan Dr Arwyn Jones (Ysbyty'r Brifysgol), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.
**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Seiat Holi yng nghwmni Eleri Rogers, Rachel Williams, Tim Pierce ac Islwyn Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.
**Mercher, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad ar enwau lleoedd gan B. D. Harries yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Iau, 21 Tachwedd**
**CYFARFOD BLYNYDDOL Y DINESYDD. Cyfarfod cyhoeddus yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.**

**Mawrth, 26 Tachwedd**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Noson yng nghwmni Myfanwy Jarman, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.
**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Cyngerdd Sêr yn Salem gyda Chôr Llandaf ac eitemau amrywiol. Elw tuag at Apêl Bangladesh.
**Sadwrn, 30 Tachwedd**
Ail Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, Prifysgol Caerdydd: 'Y Cymry a Chaethwasanaeth yn yr Unol Daleithiau'. Darlithoedd gan Melinda Gray, Huw Griffiths, Jerry Hunter, E. Wyn James, D. Hugh Matthews a Daniel Williams, yn Adran y Gymraeg, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: 029-2087-4843; cymraeg@caerdydd.ac.uk.
**Llun, 2 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Prif westai: Glyn Powell, a fydd yn adrodd hanes methiant yr awdurdodau dŵr i foddi Cwm Senni yn y 1970au a hanes arwrol pobl y fro i amddiffyn eu treftadaeth. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Tony Couch (Ffôn: 029-2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).
**Mercher, 4 Rhagfyr**
Merched y Wawr (Bro Radur): 'Canhwyllau.' Sgwrs gan Hannah Roberts. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.
**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Dr R. Alun Evans ar 'Y Blygain ym Maldwyn', yn theatr Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.15 p.m.
**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Nadoligaidd yng nghwmni Côr Hamdden Caerdydd (Arweinydd: Eulonwy Jones), yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Ysbyty Felindre.
**Sadwrn, 7 Rhagfyr**
'Taith y Saith Sant'. Saith o feirdd yn darllen eu barddoniaeth mewn sioe a drefnir gan yr Academi yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30 p.m. Tocynnau: £4. Manylion pellach: 029-2047-2266.
**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Algebra Booleaidd.' Darlith gan Dr Neville Evans a Val Jones (Cadeirydd y Gymdeithas), am 7.30 p.m. yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays.

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

**Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm**

## Diolch

Diolch o galon i Gymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, Cylch Cinio Merched Caerdydd, Ymchwil y Galon, Merched y Wawr (Cangen Caerdydd), Cylch Llyfryddol Caerdydd, a nifer o unigolion am eu rhoddion hael i'r *Dinesydd* yn ddiweddar. Heb gymorth o'r fath, ni fyddai modd cyhoeddi'r *Dinesydd*.

## Llongyfarchiadau

- i Alun Davies yr Eglwys Newydd, Dirprwy Brifathro Ysgol Gyfun Llanhari ar ei benodiad fel Prifathro Ysgol Gyfun Rhydywaun, Aberdâr.
- i Hefin a Nia Griffiths, Pontcanna ar enedigaeth Marged Hefin ar y 19eg o Fedi, chwaer fach i Elis Wyn.
- i Alun Boore a Rebecca Hobbs ar enedigaeth Elen Angharad ar 13 o Fehefin yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd. Wyres gyntaf i Anne a Roger Boore, Yr Eglwys Newydd.
- i Peter Griffiths, Prifathro Ysgol Gyfun Llanhari ar gael ei benodi yn Brifathro Rhydfelen.

## Ymddeoliad

Ymddeoliad hapus a hir i Garfield Jones yr Eglwys Newydd, cyn brifathro Ysgol Gynradd Grangetown bellach.

## Cydymdeimlwn

- â Winifred Preece, gweddw Moelwyn Preece yr Eglwys Newydd ar golli ei chwaer Olive Arnold, yn 84 oed ar y 15 Medi.
- â Keith Brown a'i chwaer Jean yn y Bontfaen ar farwolaeth eu mam Annie May Brown ar y 19eg o Fedi. Bu'r angladd yn Eglwys y Bontfaen ar y 26ain o Fedi.
- ag Eurgain Dafydd, Treganna ar golli ei thad, Ainsley Davies yn ddiweddar, oedd yn Brifathro Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi.

## Cyfle i Basio Prawf Gyrru yn y Gymraeg!

O hyn ymlaen fe fydd yn bosibl sefyll y prawf gyrru theori yn y Gymraeg. Cyflwynwyd y gallu i drefnu a sefyll y prawf fel rhan o ymrwymiad yr Asiantaeth Safonau Gyrru (DSA) i ddarparu cydraddoldeb iaith wrth gyflwyno ei gwasanaethau yng Nghymru. Gwahoddwyd John Walter Jones, prif weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sefyll y prawf gyrru theori yn y Gymraeg.

Dywedodd, "Mae profion gyrru yn straen ar y gorau, ac mae'r ffaith y gellir bellach eu gwneud yn gyfan gwbl yn Gymraeg yn hwb mawr i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru."

Ni chawsom wybod a fu'n llwyddiannus yn y prawf ai peidio!

Yn ystod mis Gorffennaf cawsom bryd bwyd blasus i gofnodi diwedd blwyddyn. Doedd dim rhaid i mi dalu am fy mwyd - diolch i aelodau'r Awr Hapus. Hefyd cefais lyfr o farddoniaeth yn rhodd, sef 'Hoff Gerddi Serch Cymru'. Diolch yn fawr i chi am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

Eleni y mae nifer o ffyddloniaid y llynedd yn ôl - felly dechrau addawol. Hyfrydwch oedd croesawu un wyneb newydd i'r cwmni sef Ifor. Felly, beth am ddod draw i'n gweld? Bydd croeso cynnes yn eich aros. Diolch i Westy Pentref am barhau i'n cefnogi.

Cofiwch hefyd am fy nosbarth Cymraeg newydd i ddechreuwyr yn bennaf sydd yn cwrdd drws nesa yn Asda ar brynhawn Llun, 1.00 - 3.00 y.p. (Cwrs 30 wythnos, wedi cychwyn ar 23 Medi). Diolch i Chris Morgan, dirprwy reolwr Asda am ei gymorth parod i sefydlu'r dosbarth newydd hwn. Ac i ddysgwyr mwy profiadol mae ein clwb siarad Cymraeg yn cwrdd yn Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd, Manor Way 7 - 9 y.h.. Cwrs 30 wythnos hefyd i gychwyn nos Lun, 23 Medi.

## Côr Merched Canna - Apêl am Aelodau

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus! Y pinacl wrth gwrs oedd ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Corau merched agored ar ddydd Iau stormus iawn yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ Ddewi. Mae'r cwpan yn eile, a'r siec yn y banc! Neis iawn! Rydym nawr yn barod i ddechrau ar waith eto ac mae'r amserlen yn prysur lenwi. Y tymor hwn mae nifer o gyngherddau ar y gweill, yn eu plith Neuadd Dewi Sant, Ysgol Gyfun Glantaf ac Abertawe. Mae'r côr hefyd yn paratoi ar gyfer rownd gyntaf 'Côr Cymru' sy'n cael ei chynnal yn yr Hydref. Gobeithio y gwelwn ni'r ail rownd! Ein bwriad hefyd yw trefnu taith fer dramor yn nhymor y Gwanwyn a fydd yn apelio'n fawr at bawb rwy'n siwr!

Wedi gwyliau'r Haf, mae'r ymarferion wedi cychwyn bob nos Lun yn Festri Salem Treganna am 7.30pm, a braf oedd gweld nifer o wynebau newydd ac ambell un wedi dychwelyd i'r côr ar ôl cyfnod i ffwrdd. Croeso mawr i chi i gyd, ac wrth gwrs, mae croeso mawr i aelodau newydd eraill i ddod draw i'n gweld ac i ymuno yn hwyl y canu. Mae llawer o sbort i'w gael!

Mae trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd i gael gwisg newydd i'r côr - 'na beth yw halibalw! Gobeithio y cawn y maen i'r wal cyn hir!

Os hoffech ymuno â'r côr, peidiwch ag oedi! Cysylltwch â Delyth Medi - 20254468, ac fe fydd croeso mawr i chi! (Ni fydd angen clyweliad!)

# YR AWR HAPUS

gan Gwilym Dafydd

Mae mwy ohonoch chi erbyn hyn wedi clywed am ac wedi talu ymweliad â'r Awr Hapus. Mae'n cyfarfod bron bob bore Llun yn nhafarn Gwesty Pentref, Ffordd Pendwyallt, Coryton, drws nesa i archfarchnad Asda, ger cyffordd 32 yr M4 am 11 y bore.

Cafwyd deg ar hugain o gyfarfodydd y llynedd. Cyfanswm presenoldeb y 30 cyfarfod oedd 254. Oes angen cyfrifiannell arnoch i ddarganfod y cyfartaledd presenoldeb? Yr ateb yw 8.46!

Fel arfer mae nifer dosbarthiadau Cymraeg yn lleihau yn ystod blwyddyn. Ond fel arall roedd hi yn hanes Yr Awr Hapus!



# Newyddion o'r Eglwysi

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Ddydd Sadwrn, 7 Medi, cynhaliwyd trip blynyddol yr Ysgol Sul. Dechreuodd y trip ym Mc Arthur Glen, cyn teithio ymlaen i Barc Singleton i fwynhau'r llyn a'i gychod. Cyfle wedyn i nofio yng Nghanolfan Hamdden Abertawe cyn dychwelyd i Gaerdydd ar ôl diwrnod llawn a llwyddiannus.

Nos Iau, 12 Medi, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o gwrdd gwragedd yr Eglwys. Y testun dan drafodaeth oedd Addysg, a chafwyd cyfle i wrando ar nifer o athrawon yn rhannu â ni yr hyn mae'r swydd allweddol hon yn ei olygu erbyn heddiw.

Nos Lun, 16 Medi, cynhaliwyd barbeciw blynyddol cangen Caerdydd a'r Cymoedd o Gymdeithas Tearfund yng nghartref Jan a Tony Best yn Yr Eglwys Newydd. Daeth cynrychiolaeth o amrywiol eglwysi ynghyd i'r achlysur ac i glywed Siôn Meredith, Trefnydd Tearfund yng Nghymru, yn rhannu â ni o'i brofiad diweddar yn y gwaith. Hefyd fe soniodd Anna Huws am ei phrofiadau diweddar yn arwain tîm o weithwyr gwirfoddol yn neheudir Affrica, a soniodd Ian Burnel am ei waith yntau dros yr haf yn Ethiopia.

**Llongyfarchiadau**

- i Hywel George, o Dafen yn wreiddiol, ar gael ei benodi yn Is-reolwr y Siop Llyfrau Cristnogol yn Arcêd Wyndham, a phob dymuniad da iddo yn y swydd.
- i Jonathan Edwards a Gwen Williams ar eu dyweddïad. Un o Gydweli yw Jonathan, ac un o Fae Colwyn yw Gwen, ac mae'r ddau'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.
- i Rhodri Jones ac Anwen Thomas ar eu dyweddïad. Mae Rhodri yn hanu o Lanbedr Pont Steffan, ac un o Gaerfyrddin yw Anwen. Mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Plasmawr.
- Llongyfarchiadau ar eu canlyniadau lefel A, a phob dymuniad da i Catrin Williams a Llion Evans, cyn-ddisgyblion yn Ysgol Glantaf, wrth i'r ddau ddechrau eu hastudiaethau ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Cyflwynwyd llyfr yn rhodd i'r ddau ar ran yr eglwys fore Sul, 15 Medi, a diolchwyd i'r ddau am eu cefnogaeth a'u rhan yng ngweithgarwch yr eglwys.

## Ebeneser, Caerdydd

Eliffantod, llewod, teigrod, nadroedd a thrychfilod. Dyna rai o'r creaduriaid a welwyd ar wibdaith Ysgol Sul Ebeneser i Barc Saffari y West Midlands ddydd Sadwrn, 7 Medi. Cafodd llond bws ohonom hwyl a miri gyda'n gilydd yn gweld y creaduriaid rhyfeddol ac yn cadw reiat yn y ffair. Diolch i Enfys Harding am ei gwaith gyda'r trip.

Cafwyd oedfa i'w chofio fore Sul Medi 22, pan ddaeth holl eglwysi Annibynnol dwyrain Morgannwg a Mynwy at ei gilydd i addoli. Er mwyn cael lle digon mawr i ddal pawb, cynhaliwyd y gwasanaeth a'r gweithgareddau yn neuadd ac ystafelloedd dosbarth Ysgol Gyfun Llanhari.

Gadawodd pedair o bobl ifanc yr eglwys eu hysgol yr haf hwn a chychwyn ar gyrsiau mewn prifysgolion. Mae Gwenllian Glyn, Siwan Dafydd a Caryl Lister yn troi am Aberystwyth a Lisa Thomas yn aros yma yng Nghaerdydd. Ein dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Rydym fel eglwys yn dymuno'n dda iawn i ddwy o eglwysi Annibynnol eraill cylch Caerdydd wrth iddynt groesawu gweinidogion newydd atynt. Pob bendith ar weinidogaeth y Parchg. Owain Llyr Evans yn Minny St, Caerdydd a'r Parchg Casi Jones yn Y Tabernacl, Y Barri.

## Bethel, Rhiwbina

Cafwyd cynulleidfa dda yn y Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd Medi 22, dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Unwaith eto eleni bydd y nwyddau a dderbyniwyd oddi wrth yr aelodau a'r plant yn ystod y cwrdd yn cael eu hanfon at yr anghenus yn Rwmania. Yn ystod yr oedfa hefyd croesawyd aelodau newydd, sef Mrs Carol Davies a Mrs Delyth Dunsford.

Fe ail-ddechreuodd y Dosbarth Beiblaidd sy'n cael ei gynnal ar foreau Mawrth, 10.30, dan arweiniad y Gweinidog. Y thema yn ystod tymor yr Hydref ydi "Ond ffrwyth yr Ysbryd yw....."

## Minny Street, Caerdydd

Cychwynnwyd tymor newydd o weithgareddau gydag oedfa gynnar ar Fedi'r 8fed. Ar yr un Sul, Mrs Eirlys Eckley oedd yn gyfrifol am yr oedfa hwyrol ar y thema 'Gwarchod' a ninnau'n cael arweiniad ar lafar ac ar gân gan nifer o'n cyd-aelodau. Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol yr Eglwys ar y trydydd Sul ym mis Medi ac eleni cawsom fendith ac arweiniad arbennig iawn gan y Parchedig Ddr R Alun Evans yn oedfaon y dydd. Cafwyd cynulleidfaoedd niferus a ninnau'n croesawu cyfeillion o eglwysi'r ddinas i gydaddoli yn yr oedfa hwyrol.

## Salem, Treganna

Cawsom dystio i fedydd Steffan Rhys, mab Aled a Sian Elin James ar y 15fed o Fedi. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

Llwyddiant mawr oedd gwibdaith yr Ysgol Sul i Oakwood eleni. Roedd reid newydd wedi taro deuddeg gan nifer, er i eraill wylio yn unig!

Y Gadwyn (Cymdeithas yr Eglwys) - Cawsom noson agoriadol hynod o ddifyr yng nghwmni Edwin Lloyd Jones, un o'n aelodau hynaf. Roedd yn noson arbennig wrth iddo hel atgofion am ei blentyndod a'i atgofion o'i fro enedigol. Mae rhaglen lawn a chyffrous yn ein haros ar gyfer y tymor.

Llangrannog - Trefnwyd penwythnos i'r teulu yn Llangrannog ddiwedd Medi. Cawn ragor o'r hanes yn y rhifyn nesaf!

CIS (Cymdeithas Iau Salem) - Cyfarfu CIS am y tro cyntaf ar y 18fed o Fedi yn y Bengal Brasserie, er mwyn trefnu rhaglen y flwyddyn. Lluniwyd rhaglen amrywiol, gan gynnwys noson yn y theatr, bolwio deg, blasu gwin a llawer mwy!

Clwb y Bobl Ifanc - Mae'r clwb wedi dechrau cyfarfod yn yr ystafell newydd, liwgar, foethus ger y festri!

**Rhagor o Eisteddfod Tŷ Ddewi**

Cynhaliwyd cyfarfod i lansio *Gorau Arf*, sef hanes sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939 - 2000 yn yr Eisteddfod. Yn y llyfr arbennig hwn, ceir cyfraniadau gan dri aelod yn Salem, sef Michael ac Ethni Jones a Richard Hall Williams. Cafodd Michael a Richard gyfle i sôn yn y lansiad am rai digwyddiadau a chymeriadau o bwys wrth frwydro i sefydlu Ysgolion Cymraeg y De.

Llongyfarchiadau i gôr merched Canna, i Gôrdydd ac i Gôr Aelwyd Caerdydd ar eu llwyddiant yn Nhŷ Ddewi. Rydym yn ymfalchio yn eu llwyddiant am fod y ddau gôr cyntaf yn ymarfer yn Salem ac am fod nifer o Salem yn aelodau o Gôr yr Aelwyd.

Cyflwynwyd Darlith Flynyddol Cymdeithas y Cyfreithwyr gan Michael Jones o dan y testun 'Troi Camel yn Geffyl'. Yr oedd yn ymdrin â 'Gwelliannau Angenrheidiol yng Nghyfansoddiad Cymru'.

Llongyferchir Alison Keys, Maidstone, ar dderbyn y Wisg Las. Mae Alison yn ferch i'r Parch D. Haydn a Doreen Thomas.

## Ewch i Barbados gyda Chôrdydd!

Mae'r flwyddyn 2002-2003 yn argoeli i fod yn gyfnod cyffrous yn hanes côr cymysg ifanc y Brifddinas, Côrdydd. Ers ei sefydlu 'nôl yn 2000, mae'r côr wedi blasu llu o brofiadau - o ymddangos droeon ar S4C, cyngerdd yn Neuadd Dewi Sant, perfformio "Teilwng Yw'r Oen" a chanu yng nghyngerdd yr FA Cup i enwi ond ychydig. Eleni, fel y llynedd, daeth Cordydd yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Tŷ-Ddewi, yn y gystadleuaeth Côr Cymysg o dan 45 o leisiau - felly blwyddyn nesaf amdani!

Nod y côr eleni yw paratoi ar gyfer taith gyffrous - taith gerddorol gyntaf y côr (dyw'r trip nid anenwog i'r Alban i wylio Cymru v Alban ddim yn cyfri!) i'r Wyl Geltaidd yn Barbados! Cafodd y cor wahoddiad i berfformio yno ym mis Mai 2003 mewn wythnos o weithgareddau a mwynhad Celtaidd! Mae 'na wahoddiad i unrhywun i ymuno gyda Chôrdydd ar y gwyliau. Felly, i godi ymwybyddiaeth am y trip ac i geisio argyhoeddi dinasyddion Caerdydd i ymuno â ni yn hwyl y trip, cynhelir noson Caws a Gwin yng nghwmni Côrdydd a Jên Wyn (Wedi 6) yn Neuadd Llanofer, Pontcanna nos Sadwrn, Tachwedd 16eg. Dewch yn llu i'r noson ac yn wir i Barbados gyda ni!

Cofiwch - os am ymuno â Chôrdydd, cysylltwch â
Sioned James ar 0292031 0714 / 07974 711 154
neu e-bost sioned@cinelgabran.co.uk

## Y Delyn Deires

Cafwyd noson i'w chofio ar nos Wener yr 20fed o Fedi yn Eglwys y Crwys pan gafwyd datganiadau ar y delyn deires gan y delynores adnabyddus Elinor Bennet o'r Bont Newydd, Caernarfon, o flaen cynulleidfa luosog.

## Y Fedal yn dod i Gaerdydd

Llongyfarchiadau mawr i Angharad Price ar ei llwyddiant yn ennill y Fedal Rhyddiaith yn Eisteddfod Tŷ-Ddewi am ei nofel, 'O! Tyn y Gorchudd'. Mae Angharad yn aelod o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae'r nofel wedi derbyn llawer o adolygiadau da, a'r llongyfarchiadau mwyaf y gallwn ei roi iddi yw mynd ati i brynu a darllen y nofel. Fe atebodd Angharad rai cwestiynau ar safle gwe Llais Llên y BBC (www.bbc.co.uk/cymru) yn ddiweddar ... dyma damaid i aros pryd.

**• Pwy yw eich hoff fardd?**
Mae fy hoff feirdd yn cynnwys Heine, T.H. Parry-Williams, Gwyneth Lewis, a phwy bynnag sy'n sgwennu geiriau y Super Furry Animals.

**• Pa un yw eich hoff gerdd?**
Yn fwyaf diweddar rhai o gerddi R.S. Thomas yn Residues.

**• Pa un yw eich hoff linell o farddoniaeth?**
A dyma ni'n dod at y mynydd,
Pawb efo'i loes yn ei law.
Twm Morys (Llys Ifor Hael)

**• Pa un yw eich hoff ffilm a rhaglen deledu?**
Hoff ffilmiau: Amores Perros a Taxi Driver
Hoff raglenni teledu: Talcen Caled a Tair Chwaer

**• Pwy yw eich hoff gymeriad a'ch cas gymeriad mewn llenyddiaeth?**
Hoff gymeriad: Wini Ffinni Hadog
Cas gymeriad: Edward Vaughan, Lleifior

**• Pa ddywediad, dihareb, adnod neu gwpled sydd agosaf at y gwir?.**
Nid gwir, gwireb na dihareb

**• Pa dri gair sy'n eich disgrifio chi orau?**
Croendenau, Aflonydd, Creadigol.

## Parti Dawns dan 25oed Cwmni Dawns Werin Caerdydd

Wel do! Fe gawson ni lwyddiant yn y 'Steddfod eleni. Yn ôl y beirniaid roedd perfformiad y criw yn berfformiad diffinadwy o Ddawns Blodau Nantgarw. Hen hanes erbyn hyn yw arhosiad y Cwmni Dawns yn Upper Houlton, mewn cabanau gwyliau bendigedig a lle i ryw dri deg o'r criw i aros. Y rheswm dros fynd oedd y gystadleuaeth ar ddydd Sul cyntaf yr Ŵyl, sef y gystadleuaeth i bartïon dawns dan 25 oed. Rhaid oedd i bob mam a thad fynychu'r achlysur ac fel y gwelwch chi dim ond Elgan a Martha sydd heb rieni'n perthyn i Gwmni Caerdydd. Pawb yn heidio i Sir Benfro am wythnos yn yr haul, wel, ar ddechrau'r wythnos beth bynnag. Ymarfer ola' ar nos Sadwrn, hynny yw bore Sul yn gynnar, gynnar gan fod Ruth ond wedi cyrraedd nôl i Gaerdydd o Sbaen am hanner awr wedi naw nos Sadwrn. Cwrdd ar y Maes am hanner awr wedi wyth a phawb yn genfigennus o liw haul Ruth. Blodau a garlantau ymhobman, Rhagbrawf, pawb i'r llwyfan. Llwyfan, ennill. Dei Thomas yn canu clodydd Gogs am lanhau'r llwyfan a Gogs yn anghofio chiwbanu ar fan tyngedfennol ond Dafydd wedi bod yn ymarfer ac yn cyflawni'r gamp er mawr syndod iddo'i hun a phawb arall. Cymaint oedd cyffro'r criw fel roiodd Daf gwtsh mawr i Dei, o flaen y genedl. Doedd dim ots 'da Dei am gwtsh Lowri ond Daf? Ta waeth, nôl i'r cabanau i ddathlu mewn steil. Pen-blwydd un o'r ffyddloniaid a champ yr ieuenctid yn rhoi blas arbennig ar y champagne. Nid ar chwarae bach mae Caerdydd yn dathlu. Aeth yr wythnos yn ei blaen heb fwy o gystadlu ond hwylus oedd y dyddiau a hir y nosweithiau.

Erbyn hyn mae'r haf wedi hir ymadael â dyddiau'r hirlwm yn ein hwynebu ond dal i wenu mae'r Cwmni Dawns. Cyngherddau di-ri o'n blaenau, penwythnosau yn Sain Ffagan, dilyn y Fari Lwyd ac ambell i daith gyfandirol ar y gorwel. Mae Pwyllgor newydd 'da'r Cwmni nawr gyda Dai James, tad Daf, yn Gadeirydd. Christine, mam Lowri a Rhys yn Arweinydd ac Esther yn Ysgrifennydd. Diolch i Rhian, mam OG am wasanaethu fel Ysgrifennydd am ddwy flynedd. 'Nepotism' rwy'n credu yw'r gair rwy mo'yn i ddisgrifio hyn i gyd yn enwedig gan fod Howard, tad Ruth, yn eilio pob cynnig yn y Pwyllgor Blynyddol. Bydd rhai o'r Cwmni yn ymddangos yn y cynhyrchiad o 'Here and Now' sy'n cael ei berfformio Ddydd Sul, Hydref 13 yn Neuadd Dewi Sant, rhywbeth hollol wahanol.

Cewch fanylion am fwy o weithgareddau'r Cwmni tro nesa'.



Dafydd, Elgan, Owain, Rhys, Ruth, Esther, Lowri, Elin (Martha)

# TUDALEN YR URDD

## Wynebau newydd yr Urdd

Dymunwn yn dda i **Siân Lewis** yn ei swydd newydd fel Swyddog Datblygu'r Fenter Iaith yng Nghaerdydd. Bydd colled ar ei hôl yn yr Urdd ar ôl iddi gyflawni gwaith gwych dros y 9 mlynedd diwethaf. Dymuniadau da i **James Rhys Williams** sydd newydd ddechrau fel Swyddog Datblygu yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro, ar ôl cyfnod o weithio gyda'r Urdd yng Nghaerffili ac i **Trudy Chard** sydd yn dechrau ar ei gwaith fel Swyddog Ieuenctid ysgolion Caerdydd mewn prosiect ar y cyd rhwng Menter Iaith Caerdydd a'r Urdd.

## TAITH I SBAEN A BARCELONA

Ddydd Mercher 14 Awst cychwynnodd 160 o ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10 o holl Ysgolion Cyfun Cymraeg y De am wythnos o wyliau yn yr haul yn Sbaen. Yn eu plith roedd llond bws o ddisgyblion Ysgol Plasmawr a Glantaf. Cafwyd wythnos ffantastig – pawb wedi mwynhau mas draw. Digon o weithgareddau; cyfle i ymlacio yn yr haul; gwneud ffrindiau newydd o ysgolion eraill; tripiau diwrnod i Barcelona, Waterworld a Porta Ventura a chyfnod ar y traeth yn mwynhau y dwr cynnes a'r gweithgareddau amrywiol. Fel y gwelwch yn y llun, roedd rhai yn mwynhau yn y cwch banana! Paid â phoeni os wnest ti golli'r cyfle eleni, gan fod trefniadau wedi cychwyn ar gyfer y daith yn Haf 2003!!



# Gweithgareddau

## HANNER TYMOR

Does dim rheswm i blant y Brifddinas gwyno nad oes dim i'w wneud yn ystod wythnos hanner tymor gyda'r gweithgareddau y mae'r Urdd wedi eu trefnu!

Dydd Llun a Mawrth 21/10/02 – 22/10/02
**Ysgol Pêl-droed, Talybont 10.00 – 12.00**
**Blwyddyn 2, 3 & 4**

Dydd Llun a Mawrth 21/10/02 – 22/10/02
**Ysgol Pêl-droed, Talybont 12.30 – 3.00**
**Blwyddyn 5 & 6**

Dydd Mercher 23/10/02 –
**Trip i CHESINGTON World of Adventures**
**Blwyddyn 5 a 6**

Dydd Iau 24/10/02 –
**Trip i ALTON TOWERS – Blwyddyn 7 a 8**

## Tenis...rygbi...pêl-rwyd...

Mae'r Urdd yn chwilio am bobl sy'n gallu hyfforddi chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg - felly os ydych chi'n adnabod unrhyw un fyddai'n gallu helpu, cysylltwch â Luned Clement, luned@urdd.org.

Mae cyfle i blant oedran blwyddyn 1 a 2 chwarae pêl-droed gyda'r Urdd yng Nghaeau Llandaf o 9 tan 10 ar fore Sadwrn, ac mae timau'r Urdd, o oedran blwyddyn 3 hyd at 'dan 13' yn cystadlu yng Nghyngrair pêl-droed Caerdydd yn wythnosol ar fore Sadwrn. Maen nhw hefyd yn derbyn hyfforddiant bob nos Fawrth yn Stadiwm Athletau Caerdydd. Am fanylion pellach cysylltwch â James Williams 029-2080-3354.

Cofiwch hefyd am safle we'r Urdd – mae lluniau a manylion y gweithgareddau uchod i gyd yno ynghyd â rhestr gyflawn o weithgareddau'r Urdd yn yr ardal hon eleni. www.urdd.org

**James Rhys Williams**
Swyddog Datblygu Caerdydd a'r Fro

---

o dudalen 1

Roedd y plant ifanc yn yr ysgolion yn ymddangos yn hapus iawn, a'u gwên mor barod - ond eto y prinder mor amlwg. Plant yn yr ysgolion heb offer sylfaenol, plant yn chwarae pêl-droed efo potel blastig gan nad oedd ganddynt bêl iawn. Da felly oedd gallu rhoi llyfrau, papur, offer ysgrifennu a phêl droed a phêl-rwyd i'r ysgolion ar hyd y daith.

Tra yn Maseru, y brifddinas, cawsom y fraint o ymweld â'r dirprwy Brif Weinidog, a oedd hefyd yn Weinidog Addysg, gan drafod yr hyn oeddem wedi ei weld ac yntau'n esbonio y camau y mae'r llywodraeth yn ceisio eu cymryd i ddatblygu'r wlad yn y dyfodol. Roedd wedi bod yng Nghaerdydd rai blynyddoedd yn ôl ac yn dal i gofio'r croeso a oedd wedi ei dderbyn yn y ddinas.

Y bwriad nawr yw trefnu i'r bobl ifanc yma gael y cyfle i ddod i Gymru, fel y gallwn ninnau estyn yr un fath o groeso iddynt hwy yma, gan gryfhau ymhellach y berthynas sydd wedi ei sefydlu eisoes rhwng y ddwy wlad.

Yn sicr, gwir yw dweud i ni gyd gael ein swyno gan y wlad a'i phobl. Wedi pedwar diwrnod ar ddeg o deithio - dros 920 cilomedr, dros fynyddoedd urddasol y Gogledd, dros dirwedd anial y Dwyrain a'r De a phrysurdeb y Gorllewin - daeth y daith feicio arbennig honno i ben. Taith fythgofiadwy i bawb. Ond dwi'n credu fod pawb o'r un farn - nad diwedd y daith oedd hyn - ond dechrau ein cysylltiad â'r wlad arbennig hon.

Roedd yn fraint cael bod yn rhan o'r daith, a bu'n agoriad llygad go iawn. Mae Lesotho yn wlad mor anhygoel o hardd. Yn sicr, byddwn yn cofio y croeso cynnes a gawsom. Mae taith o'r fath yn eich gorfodi i roi popeth mewn persbectif ac yn gwneud i chi werthfawrogi yr hyn sydd gennym - a'r hyn yr ydym yn ei gymryd mor ganiataol."

**Siân Parry Jones** Medi 2002.

# BRO MORGANNWG

### Yr Adran Ieithoedd Tramor Modern - Cyfnewid â'r Almaen

Yn ystod ail wythnos y tymor, pleser fu croesawu 53 o ddisgyblion Leininger Gymnasium, Grunstadt, yr Almaen a thri o'u hathrawon i Fro Morgannwg. Trefnwyd amryw o wibdeithiau yn ystod yr wythnos i'r ymwelwyr gan gynnwys teithiau i Big Pit, Sain Ffagan, Stadiwm y Mileniwm, Castell Caerdydd, y Bae a Techniquest. Treuliwyd diwrnod yn yr ysgol yn cael blas ar wersi a mwynhau chwaraeon. Gyda'r nos cafwyd cyfle i fwynhau bowlio deg a disgo gyda'u partneriaid o flynyddoedd 8 a 9 ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau eraill a drefnwyd gan y disgyblion eu hunain ar gyfer eu ffrindiau newydd. Bu'n wythnos hynod fyrlymus a braf oedd nodi brwdfrydedd y Cymry a'r Almaenwyr ifanc fel ei gilydd gan fod yr ymweliad yn benllanw blwyddyn o gysylltu ar e-bost a thrwy lythyr. Mae blwyddyn 9 eisioes yn edrych ymlaen yn eiddgar am gael profi'r un croeso gyda'r teuluoedd yn Grunstadt yn ystod Tymor yr Haf 2003.

### Wythnos ABCh

Yn ystod wythnos olaf tymor yr haf, cafodd disgyblion Ysgol Gyfun Bro Morgannwg gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ABCh, o sesiwn stereoteipio i lacrosse cymysg a phêl-droed merched. Roedd hi'n amlwg bod y disgyblion wedi mwynhau. Dywedodd Rhian Owen (7G) mai "uchafbwynt yr wythnos oedd cael y cyfle i chwarae pêl-droed gydag arbenigwyr y Fro". Yr uchafbwynt i Gareth Jennings (8O) oedd arbrofi gyda lacrosse cymysg, "doeddwn i ddim wedi clywed am y gêm, heb sôn am gymryd rhan, cyn y cyfle gwych yma". Fel ysgol, teimlwn fod yr wythnos wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf.




### Chwaraeon

Llongyfarchiadau i **Dewi Evans** a fu'n cynrychioli tim criced Caerdydd a'r Fro o dan dair ar ddeg yn ystod yr haf.

Braf oedd clywed bod **Danielle Stokes** o flwyddyn 7 wedi ennill cystadleuaeth sglefrio iâ Cymru o dan 16 oed.

Bu **Glen Welsh** o Flwyddyn 9 yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Syrffio Cymru.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Jonathan Owen ar redeg ras marathon Caerdydd mewn amser teilwng iawn.

### Athrawon Newydd

Braf oedd croesawu digyblion a staff newydd i'r Ysgol eleni. Dechreuodd 7 aelod o staff newydd:
Miss Fflur Bedwyr - Addysg Grefyddol
Mr Andrew Evans - Ffiseg
Mr Dilwyn Owen - Technoleg Gwybodaeth
Miss Judith Williams - Saesneg
Miss Rhian Morgan - Ffrangeg
Mrs Nerys Griffiths - Celf
Miss Bethan Wyn Jones - Cymraeg

### Adeiladau Newydd

Fe agorwyd bloc Ieithoedd Modern newydd fis Medi a braf yw gweld yr ysgol yn tyfu. Mae Bloc Celf newydd sbon a dau labordy hyfryd wedi'u hagor yn ogystal.

**Catherine Evans**

# Plasmawr

### Cwrs Anwytho 6ed Dosbarth

Cynhaliwyd cwrs llwyddiannus eto eleni ar gampws APCC yn y Tyllgoed. Ymysg y siaradwyr gwâdd roedd Rhys Harries, Nia Gwyndaf o Brifysgol Cymry Aberystwyth, Branwen Niclas o Gymorth Cristnogol a Llinos Robert o Urdd Gobaith Cymru. Lansiwyd ymgyrch elusennol y chweched, sef Croeso Calcutta. Cawsom hefyd glywed am daith Sioned, Elenid ac Anthony i gartref plant amddifad yng Ngwlad Pwyl.

### Taith i Ardeche yn Ffrainc

Ar ddiwedd y tymor ysgol ym mis Gorffennaf, fe ymadawodd criw o ferched, un bachgen ac aelodau o staff, yr ysgol am chwarter i ddeuddeg ar fore dydd Sul braf. Roeddem yn cychwyn ar daith gweithgareddau awyr agored i Ardeche yn Ffrainc. Pedair awr ar hugain yn ddiweddarach fe gyrhaeddom Ardeche wedi blino'n lân ac yn hynod o gyffrous. Roedd yna adeilad uchel, lle bwyta, pebyll a phwll nofio ar y maes. Roedd y staff a'r hyfforddwyr yn groesawgar iawn. Am y tridiau nesaf fe ganwiodd y criw i gyd i lawr afon yr Ardeche. Digwyddodd llawer o bethau doniol ar hyd y daith gan gynnwys canws yn troi ben i waered yn y dŵr!



Ar ôl cwblhau taith yr Ardeche a derbyn ein tystysgrifau aethom ni'n ôl ar y bws a theithio i lawr i Mimosa ym Môr y Canoldir. Cawsom yr un math o groeso, ond y tro hwn roedd yno draeth yn hytrach na phwll nofio! Cawsom fwy o amrywiaeth o weithgareddau fel hwylfyrddio, snorclio, 'top-pers' sef cychod bychain, gemau ar y traeth a llawer mwy! Fe wnaethom gyfarfod â phobl eraill o ysgolion yn Rhydychen a lleoedd eraill yn Lloegr. Un o'r uchafbwyntiau oedd y disgos bob nos gyda cherddoriaeth newydd a digon o le i ddawnsio! Hedfanodd y daith yn ôl gan fod pawb wedi blino gymaint. Cawsom amser gwych ac roedd yn brofiad arbennig! Yn bendant, buaswn yn hoffi mynd yn ôl y flwyddyn nesaf.

**Olwen Morris-Jones**

# Glantaf

## Glantaf ac Eton

Cawsom gyfle i dreulio deng niwrnod yn ysgol enwog Eton ar gwrs haf i ysgolion y wladwriaeth. Cynigiwyd amrywiaeth o bynciau megis gwyddoniaeth, ieithoedd a'r dyniaethau. Astudiodd Manon ac Elin Almaeneg, tra Lladin oedd y pwnc a ddewisodd Alys.

Braint oedd cael ein derbyn i'r ysgol hynafol hon, a gwelwyd hyn yn y niferoedd isel ym mhob dosbarth. Roedd yn gwrs dwys ac fe ymestynnwyd ein gallu i'r eithaf.

**Alys Bryant, Elin Burns a Manon Hefin.**

## Taith Adran Gerddoriaeth Glantaf Llyn Levico, Yr Eidal

'Ffantastic', 'Bythgofiadwy', 'Pryd ma'r un nesa?'. Dyna i chi ymateb y disgyblion wrth ddisgyn o'r bws bnawn Sul, Gorffennaf y 7fed, wedi joio mas draw ac wedi blino'n lân ar ôl wythnos arbennig draw yn yr Eidal.

Diolch yn fawr iawn i'r athrawon ymroddedig a roddodd o'u hamser prin i drefnu'r daith ac am eu gwaith diflino yn paratoi'r côr, y band jazz, yr eitemau unigol, y ffurflenni dibendraw, a threfnu nifer o amrywiol weithgareddau - Mrs. Delyth Medi Lloyd, Mrs. Elspeth Hughes, Miss Meleri Jones, Mr. Iwan Lloyd, Mr. Haydn Morgans a Mr. Dyfrig Rees.

Roedd pawb yn gynhyrfus iawn wrth gychwyn, pawb â'i fag yn barod, ac roedd hi yn dipyn o gamp i gael 61 o ddisgyblion, 6 athro, cit drwm, bagiau di-ri, offerynnau o bob math a phiano...... i fewn i'r bws mawr!

Roedd y ddwy gyngerdd yn wych - un yn Trento a'r llall yn Cembra; un mewn eglwys hyfryd lle y bu Handel unwaith yn chwarae'r organ, lle cawsom y cyfle i berfformio adrannau o 'Requiem' Mozart, gweithiau gan John Rutter, emynau traddodiadol Cymreig, a mwy! Roedd y gyngerdd arall mewn 'marquee' lle y cafwyd perfformiadau arbennig. Roedd yna hefyd ychydig o dristwch - y gyngerdd yn yr eglwys oedd cyngerdd olaf aelodau y chweched ucha' ac fe gafwyd ambell ddeigryn.

Un o binaclau'r daith oedd yr ymweliad â Fenis ac â Ferona, ac yn arbennig yr opera 'Carmen' gan Bizet y buom mor ffodus i'w gweld yn yr 'amphitheatre' enfawr yn Ferona. Rwy'n credu bod hyd yn oed y rocwyr mwya' yn ein plith wedi troi yn 'opera buffs' y noson honno! Diolch am y cyfle.



*Y 'bois' y tu allan i'r amphitheatre yn Ferona*

## Taith Yr Adran Ddaearyddiaeth i Wlad yr Iâ

Wythnos o dywydd da a golygfeydd arbennig. Roedd y tir yn anial a'r mynyddoedd yn foel. Astudiom ni'r creigiau, y tywydd ac effaith platiau'r ddaear sy'n ymrannu ar yr ynys. Fe welsom ni y gwahanol fathau o fynyddoedd a llosgfynyddoedd a phopeth wedi eu herydu gan y gwynt. Roedd yn andros o hwyl ac yn werth mynd.

**Meilyr ap Hywel**

## Glantaf a NASA

Yn gynharach yn y flwyddyn ysgol fe ddaeth aelod o NASA atom yng Nglantaf i hysbysebu cystadleuaeth i unrhywun a oedd yn dangos diddordeb mewn astronomeg. Y wobr oedd treulio wythnos yn Kennedy Space Centre Florida, ac wythnos yn Johnson Space Centre Texas ymhlith y gofodwyr eraill, am ddim. Roedd yn gystadleuaeth genedlaethol, felly ni ddisgwyliom unrhywbeth yn fwy na mwynhau'r cyfle i ymchwilio i bwnc llosg. Fe ysgrifennais i ac Amy Carew ddarn ar 'Y tebygolrwydd o ddarganfod bywyd tu hwnt i'r blaned hon', a thrwy lwc fe enillom le! Byr rybudd a gawsom cyn ein bod yn eistedd ar awyren, ac yn teithio filltiroedd i wlad a oedd eto'n ddieithr i ni.

Cyrhaeddom yr Hilton ysblenydd ar draeth Melbourne yn oriau hwyr y nos. Dyma fyddai man cychwyn ein hantur. Yn rhan o grwp o 22 disgybl a oedd hefyd wedi bod yn llwyddiannus, treuliom yr wythnos gyntaf yn bennaf yn ymweld â'r arddangosfeydd yn KSC. Roedd y rhain yn cynnwys y parc rocedi lle gwelsom olion o'r cenadaethau Gemini, Mercuri a'r Atlas. Cawsom yn ogystal y cyfle i roi cynnig ar rai o'r 'simulators' megis y rhai a ddefnyddia'r gofodwyr - gan gynnwys 'G-Force 4 simulator'! Wow! Gan ein bod wedi ennill y gystadleuaeth cawsom y fraint o gwrdd â rhai gofodwyr fel Sam Durance, a chlywed eu profiadau o ofod-deithio. Yn goron ar y cyfan rhoddwyd i ni wersi ymarferol a esboniai astronomeg mewn modd gweladwy a dealladwy gan weithwyr NASA.

Ar ôl penwythnos ar draeth Cocoa eisteddom unwaith eto ar awyren, y tro hwn ar ein ffordd i Johnson Space Centre, yn Houston, Texas. Dechreuom yr wythnos â phentwr o waith. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o arwin tîm bychan i mi a thri disgybl arall. Disgwyliwyd i ni fedru delio â chyllid bersonol o ryw 206,000,000 doler! Yn anffodus, arian dychmygol ydoedd i gyd! Bu'n rhaid i ni brynu'r adrannau ac adeiladu Roced, Rover, Lander a Loffter. Buom yn eithaf llwyddiannus o ystyried; cododd ein roced 150 llath, a'n Rover yn unig a fethodd!

Roedd ein taith i NASA yn fythgofiadwy a hoffwn annog pob disgybl i roi cynnig ar y gystadleuaeth ISSET fydd yn dechrau eto y gaeaf hwn!

**Rachel Busfield**



*Amy Carew a Rachel Busfield gyda Scott Vangen o NASA*

TELYNAU VINING HARPS

Dosbarthwr telynau Camac
Distributor of Camac harps

***Mae telynau ac offer telyn Camac ar gael drwy gwmni Telynau Vining, Caerdydd... defnyddiau, crefftwaith a sain o safon uchel am bris cystadleuol.***

**Telynau pedal**
**Telynau Celtaidd**
**Telynau trydan**
**Telynau i'w rhentu**
**Cerddoriaeth, tannau ac offer telyn**

**Cysylltwch â Elen Vining**

**Telynau Vining Cyf.**
21 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1NJ
Ffôn/Ffacs: (02920) 529084
E-bost: telynauviningharps@cwcom.net

## TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

*Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

## GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni? Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

## YN EISIAU

**Rhywun i ofalu am ferch 8 oed.**

Yn ystod tymor ysgol yn unig rhwng 3.30 a 6 y prynhawn.
Ardal Treganna/Pontcanna.
Trwydded yrru o fantais.

**Ffoniwch:**
**07980 985622**

community dance wales
dawns gymuned cymru

steps in time
camau mewn amser

## GWEINYDD

Mae DGC yn chwilio am rywun â phrofiad o weinyddiaeth swyddfa i gefnogi'r Cyd-gysylltydd Hyfforddi a'r Swyddog Datblygu.

14 awr yr wythnos drwy drefniant £7.00 yr awr.
Cytundeb 6 mis i ddechrau.

Swyddfa newydd yn Nhyllgoed, Caerdydd
Dyddiad cau: 14 Hydref 2002
Cyfweliadau: 17/18 Hydref

C.V. a llythyr eglurhaol at:
Dawns Gymuned Cymru, Sbectrwm, Ffordd Bwlch, Tyllgoed, Caerdydd CF5 3EF

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Swyddog Datblygu - 02920 575075
info@communitydancewales.com

Mae gan DGC ymrwymiad i Gyfleoedd Cyfartal



## Y SIOE ORAU YN Y DDINAS

**gan Huw Pugh**

"Beth yw'r holl ffws a ffwdan am dîm pêl-droed y brifddinas? Wedi'r cyfan, onid rygbi yw'n gêm genedlaethol? Ac, eniwei, ar waelod y domen fu 'Cardiff City' ers hanner canrif. A beth am yr hwliganiaid sy'n ymosod ar bawb a phopeth tu fewn, a thu allan, i Barc Ninian?"

Wel, bobl bach, mae'r byd wedi newid - a diolch byth am hynny! Gyda'i bocedi'n llawn pres, daeth Sam Hammam yn gadeirydd newydd i'r clwb ddwy flynedd yn ôl. Gwariodd £10m ar chwaraewyr newydd (y drutaf yn costio £1.7m), ac wrth fuddsoddi yn y clwb yn gyffredinol. Ar hyn o bryd mae'n cynllunio stadiwm newydd (ar draws y ffordd i'r safle bresennol) a fydd yn gartref cyfforddus i 60,000 o gefnogwyr.

Dim ond tair blynedd yn ôl, roedd Parc Ninian bron yn wag - gyda llai na 2,000 o gefnogwyr yn dioddef perfformiadau erchyll. Erbyn heddiw, mae'r clwb yn denu 12,000 o gefnogwyr yn rheolaidd. Mae safon y pêl-droed yn gwella o gêm i gêm - ac mae'r cyffro sy'n cydio yn y dorf yn werth ei brofi. Wrth i mi sgwennu'r darn yma, mae'r tîm yn eistedd yn lled gyfforddus ar ben yr ail gynghrair (safle gorau'r tîm ers ugain mlynedd - hip hip hwre!)

"Beth yw'r ots?" medde chi.

Wel, esgusodwch fi - ond bwriad y bonheddwr Hammam yw mynd a'r clwb i uchelfannau'r Adran Gyntaf, tra'n gwneud yn saff fod gan y clwb isadeiledd addas er mwyn aros yno. Fe fydd yr isadeiledd yn cynnwys y stadiwm newydd; denu cefnogwyr brwd o Gaerdydd, y cymoedd, y fro ac ymhellach - a sicrhau hyfforddiant o'r radd uchaf i chwaraewyr ifanc y dyfodol - gan ddewis y gorau o ieuenctid yr ardal.

"Zzzzz" medde chi. "Mae pêl-droed yn hollol boring".

Beth! Dychmygwch, da chi, Gaerdydd yn cystadlu yn erbyn Lerpwl, Arsenal, Manchester United a Spurs. Dychmygwch AC Milan, Barcelona neu Bayern Munich yn chwarae yn erbyn prifddinas Cymru wrth gystadlu am Gwpan UEFA. Fe fyddai hynny'n codi proffil y ddinas - a Chymru fach - tra'n dod â miliynau o bunnoedd i fewn i'r economi leol (tua £4m am bob gêm yw'r amcangyfrif).

"Ond ar ddiwedd y dydd, dim ond cicio pêl rownd cae mae'r bois yn ei wneud".

Ie, wel, mae llawer o bethe yn ymddangos yn syml ac yn ddibwys os nad ydych chi'n gwybod dim amdanynt! Mae hanes clwb pêl-droed yn chwarae rhan annatod yn hanes y gymuned. Er enghraifft, mae 'na ddarlun yn hongian yn Neuadd y Ddinas sy'n dangos y bêl yn croesi'r linell yn Wembley yn 1927, wrth i'r tîm ennill cwpan yr FA. Mae'n fater o falchder sifil hyd at heddiw! Gellir dilyn hanes Dinas Caerdydd, ochr yn ochr â hanes y ddinas a De Cymru.

Ac, ar y cae, mae'r gêm yn gyfuniad o elfennau - gan gynnwys sgil, cryfder, stamina, gweledigaeth, hunan hyder, tactegau, gweithio fel tîm, cyflymdra ac ychydig o lwc. Os gallwch ddod â'r cyfan at ei gilydd - mae'n bosib llwyddo. (A, credwch fi, nid peth hawdd yw cicio'r bêl heibio'r gôl geidwad ac i fewn i'r rhwyd - gan osgoi'r pyst, y trawst, a'r amddiffynwyr - tra bod y dorf yn gweiddi nerth eu pennau.)

"A'r hwliganiaid?"

Rwy'n gefnogwr ers blynyddoedd - ac nid wyf erioed wedi cael ffeit! Mae'r lle bellach yn llawn teuluoedd - ac mae'r clwb yn dal i gymryd camau breision er mwyn cael gwared o'r lleiafrif anghymdeithasol.

Mae'n wir, wrth gwrs, fod yr hogie'n mwynhau canu caneuon er mwyn dychryn y gwrthwynebwyr a'u cefnogwyr - ond mae hynny'n rhan o draddodiad y gêm - a digri iawn yw llawer o'r cyfansoddiadau. (Megis 'Are you Swansea in disguise?' - ar gyfer unrhyw dîm sy'n chwarae'n sâl iawn. Nid fy mod innau, wrth gwrs, yn canu'r fath sothach - ond mae ambell i bennill, na fedraf ei ailadrodd yn nhudalennau parchus y Dinesydd, yn dod â gwên i'r wyneb.

A'r rygbi? Wel, mae'r awyrgylch mewn gêm bêl-droed yn llawer mwy bywiog ac emosiynol na'r rhan fwyaf o'r gemau rygbi a welais. Er enghraifft, mae bod ar y blaen 2-1 gyda phum munud i fynd yn creu tensiynau anhygoel. Ar ôl yr holl waith, yr holl ymdrech, gall gadael gôl i fewn yn ystod eiliadau olaf y gêm golli 2 bwynt i'r tîm. Yn sicr, mae'n fwy o chwyrligwgan emosiynol na gwylio tîm rygbi yn ennill 54 - 0. Wedi'r cyfan, ble mae'r cyffro o wybod, ar ôl llai na phum munud, pa dim sy'n mynd i ennill? (Ac ar hyn o bryd, wrth gwrs, mae'n debyg mai'r tîm sy'n chwarae yn erbyn Cymru yw'r tîm sy'n mynd i ennill!)


Felly, gyfeillion annwyl, dyma eich gwahodd i wylio tîm y brifddinas yn chwarae. Rhowch eich pryderon i'r neilltu, anghofiwch y bêl siâp ŵy, a dewch - gyda'ch teulu - i fwynhau gwledd o chwarae gwych a chyffrous.

Gyda'ch gilydd nawr: "Blooooooooobirds!"



*Andy Legg: Cardiff City: emosiwn pur*

## Jonathan Davies yn mynd i fyd y fodrwy



Llongyfarchiadau i Jonathan Davies Llandaf ar ei briodas â Helen Jones ar y 3ydd o Awst yn Eglwys Christ Church yn Radur. Daeth llu o sêr y byd rygbi i'r briodas a'r gwas priodas oedd Ieuan Evans. Gweinyddwyd y seremoni briodasol yn yr eglwys gan y Parch William J. Barlow a chynhaliwyd y neithior mewn gwesty ym Mro Morgannwg. Cafodd Scott, mab Jonathan fod yn facwy a Grace a Geena, ei ddwy chwaer fod yn forynion priodas.

## Dewch i chwarae!

Oeddech chi'n gwybod fod croeso i blant
dan 7,8,9,10,11,12 ac 14
ymarfer rygbi bob bore Sadwrn,
a chwarae rygbi bob bore Sul gyda
Chlwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd (CRICC).
Mae hyn i gyd yn digwydd ar Faes y Diamwnt,
yng Nghlwb CHSOB.
Cysylltwch â Huw Jones 029-2084-2811
am fanylion pellach.




**GWLEDD O RAGLENNI I DDATHLU PEN-BLWYDD S4C YN 20 OED**

**TACHWEDD 1-3**

pen-blwydd s4c 2002 s4c anniversary

S4C